

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda, Tenby Dental
Haven**

17 Chwefror 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd amgen a fformatau eraill gael eu llunio, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Am fwy o gymorth, cysylltwch â ni.

Ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	8
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
5.	Y Camau Nesaf.....	18
6.	Methodoleg	19
	Atodiad A.....	21

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Tenby Dental Haven yn Ace Court, Warren Street, Dinbych-y-pysgod ar 17 Chwefror 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Tenby Dental Haven yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Tenby Dental Haven yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Dinbych-y-pysgod yn Sir Benfro. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae Tenby Dental Haven yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig.

Mae Tenby Dental Haven yn un o dri phractis yng ngorllewin Cymru sy'n eiddo i Petra Dental Group.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys un deintydd, un nyrs, un hylenydd ac un rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol, gan gynnwys mewnbliadau deintyddol.

3. Crynodeb

Yn gyffredinol, ni allem fod yn sicr bod gan y practis systemau rheolaeth a sicrwydd ansawdd addas ar waith er mwyn sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu'n ddiogel. Y rheswm am hyn yw ein bod wedi canfod bod angen nifer o welliannau er mwyn diogelu iechyd, diogelwch a lles cleifion a staff, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli heintiau. O ganlyniad i'r pryderon hyn, cyflwynwyd llythyr gweithredu ar unwaith i'r practis gan ddangos y gwelliannau roedd eu hangen.

Yn ogystal â'r materion hyn, canfuom fod angen gwelliannau mewn nifer o feysydd eraill gan gynnwys y canlynol:

- Storio gwastraff
- Cyfarpar a phrosesau dadebru
- Diogelu
- Cyfathrebiadau'r practis a gwerthusiadau'r staff
- Prosesau rheoli a sicrwydd ansawdd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau perthnasol
- Polisiâu, gweithdrefnau ac asesiadau risg.

Fodd bynnag, canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd yr adborth a gawsom drwy holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol
- Roedd y cyfleusterau clinigol yn lân ac yn daclus.

Yn dilyn yr arolygiad, bu angen i'r practis gwblhau dau gynllun gwella (Atodiad A) er mwyn mynd i'r afael â'r canfyddiadau.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Roedd yr adborth a gawsom drwy holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol. Dywedodd y mwyafrif o gleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom argymhell gwneud gwelliannau o ran darparu gwybodaeth i gleifion. Roedd angen diweddariadau i'r polisi cwyno.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cafodd 18 o holiaduron eu cwblhau a'u dychwelyd atom. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Yn hapus iawn gyda phopeth.”

“Dwi bob amser wedi bod yn hapus gyda'r gwasanaeth a'r driniaeth dwi wedi'u cael.”

“Proffesiynol iawn, cwrtais, yn barod eu cymwynas.”

Roedd yr adborth gan y cleifion a wnaeth gwblhau'r holiaduron yn gadarnhaol. Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth maent yn eu derbyn yn y practis, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff.

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth gael eu gweld gan y deintydd. Dywedodd y staff wrthym pe byddai deintydd yn rhedeg yn hwyr y byddent yn sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i'r cleifion.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Darparwyd gwybodaeth am y rhifau ffôn cyswllt mewn achos brys a'r oriau agor yn nhaflen wybodaeth y practis, yn y dderbynfa, ac ar neges ar y peiriant ateb ffôn. Fodd bynnag, nid oedd hon wedi'i harddangos y tu allan i'r practis, yn hysbysu cleifion ar sut i gael mynediad at ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau. Gwnaethom gynghori'r practis i wneud hyn.

Gall gwybodaeth hyrwyddo iechyd gynorthwyo cleifion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain. Gwelsom fod ychydig yn unig o wybodaeth hyrwyddo iechyd wedi'i harddangos yn y dderbynfa/man aros.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai rhagor o wybodaeth hyrwyddo iechyd perthnasol fod ar gael i gleifion.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dylai'r practis hefyd ystyried sut y gallai wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch i amrywiaeth ehangach o gleifion, megis trwy ddarparu gwybodaeth mewn fformatau ac ieithoedd eraill, gan gynnwys y Gymraeg. Gellid asesu'r angen am hyn trwy gael adborth gan y cleifion.

Gwelsom fod gan y practis ffurflenni adborth sydd ar gael i gleifion yn y dderbynfa, ond dywedwyd wrthym nad oedd y rhain yn cael eu cwblhau yn aml gan gleifion. Gwelsom fod gan y practis rhai holiaduron a ddefnyddir ar gyfer cleifion sy'n derbyn mewnbaniadau, ond nid oedd y rhain yn cael eu dosbarthu'n rheolaidd. Gwnaethom gyngori'r practis i ddefnyddio holiaduron i geisio adborth gan gleifion yn rheolaidd, fel modd i asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Roedd gwybodaeth am y practis ar gael mewn llyfryn yn yr ystafell aros, ond ni ellid gweld hon yn hawdd ac nid oedd taflenni ar gael er mwyn i gleifion fynd â nhw adref.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis wella'r ffordd y darperir gwybodaeth i gleifion am y practis a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaethau deintyddol preifat. Gwelsom fod y weithdrefn yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.¹ Fodd bynnag, roedd y manylion am sefydliadau eraill y gallai'r cleifion gysylltu â nhw yn cynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, sy'n berthnasol i gleifion y GIG yn unig.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid diweddarau'r weithdrefn gwyno a dylid dileu'r cyfeiriadau at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, gan fod hyn yn berthnasol i gleifion y GIG ac nid cleifion preifat.

¹ Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

Dyweddodd staff wrthym fod cwynion llafar ac anffurfiol yn cael eu cofnodi ar y system gyfrifiadurol . Gwnaethom gynghori'r practis i ddatblygu log sy'n crynhoi'r holl gwynion, gan gynnwys y cwynion llafar ac anffurfiol, fel y gall unrhyw themâu newydd gael eu nodi.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Er inni ganfod bod yr ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân ac yn daclus, gwnaethom nodi nifer o feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn, gan gynnwys pryderon am y trefniadau rheoli heintiau a'r systemau ar gyfer diogelu iechyd, diogelwch a lles y cleifion.

O ganlyniad i hyn, cyflwynwyd llythyr gweithredu ar unwaith i'r practis yn dilyn yr arolygiad a oedd yn nodi'r gwelliannau roedd eu hangen.

Cyfleusterau clinigol a'r amgylchedd

Canfuom fod yr holl ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân ac yn daclus a bod y profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal i sicrhau y defnyddir y dyfeisiau trydanol bach yn ddiogel o fewn y practis. Fodd bynnag, mewn perthynas ag iechyd a diogelwch cleifion, canfuom fod angen gwneud y gwelliannau canlynol:

- Nid oedd diffoddwyr tân wedi'u gosod yn y llefydd cywir (y rhai a osodwyd ar wal neu ar hambwrdd) ac nid oedd yn hawdd cael mynediad atynt.
- Nid oedd cyfarwyddiadau tân, er mwyn cynghori cleifion ar y broses i'w dilyn pe bai tân, wedi cael eu harddangos.
- Nid oedd tystysgrif cynnal a chadw nwy ar gael er mwyn profi bod y boeler wedi cael ei wasanaethu yn ddiweddar.
- Nid oedd y poster iechyd a diogelwch yn gyfredol ac roedd angen ei newid a rhoi un a oedd yn cynnwys y canllawiau cyfredol yn ei le.
- Nid oedd y llyfr damweiniau a oedd yn cael ei ddefnyddio gan y practis yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 ac nid oedd cofnodion wedi'u cwblhau wedi cael eu tynnu allan, er mwyn diogelu gwybodaeth staff a chleifion.
- Roedd adolygiad o'r llyfr damweiniau yn dangos bod rhai anafiadau a achoswyd gan nodwyddau wedi digwydd yn ddiweddar, ond nid oedd system fwy diogel i waredu nodwyddau ar waith.
- Nid oedd risgiau amgylcheddol, gan gynnwys asesiadau risg tân wedi cael eu hadolygu gan y practis i sicrhau eu cywirdeb, ac nid oedd pob cam gweithredu o ganlyniad i'r asesiadau risg hyn wedi cael eu cwblhau.
- Nid oedd asesiadau risg digonol ac addas ar waith ar gyfer yr holl sylweddau peryglus i iechyd a ddefnyddir gan y practis yn unol â'r

Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).² Mae asesiadau COSHH yn bwysig er mwyn diogelu staff a chleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Yn unol â'r anweithiau a nodir yn y canlyniadau uchod, mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod pob mesur a cham gweithredu priodol yn cael ei gymryd i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles cleifion a staff.

Gweler Atodiad A ar gyfer manylion pellach am y camau gweithredu y mae angen eu cymryd ar unwaith mewn perthynas â diogelwch cleifion.

Gwaredu gwastraff

Roedd gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod bod y practis yn gwaredu dannedd a oedd wedi'u tynnu mewn modd anghywir, sef y tu mewn i fagiau gwastraff clinigol yn hytrach nag mewn cynhwysyddion addas. Gwnaethom ganfod hefyd nad oedd gan y practis finiau gwastraff addas ar gyfer gwastraff hylendid benywaidd. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y biniau ar fin cyrraedd. Canfuom nad oedd unrhyw drefniadau ar gyfer gwaredu gwastraff oddi wrth fodolau deintyddol (gypswm).

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl wastraff clinigol a'r gwastraff nad yw'n glinigol yn cael ei waredu yn briodol, gan gynnwys dannedd wedi'u tynnu, gypswm, a gwastraff hylendid benywaidd.

Rheoli heintiau

Gwnaethom ganfod nifer o feysydd i'w gwella, yn ymwneud â threfniadau rheoli heintiau. O ganlyniad i hyn, cyflwynwyd llythyr gweithredu ar unwaith i'r practis yn dilyn yr arolygiad a oedd yn nodi'r gwelliannau roedd eu hangen. Ceir rhestr o'r camau gweithredu ar unwaith oedd eu hangen yn Atodiad A.

Roedd crynodeb o feysydd i'w gwella o ran rheoli heintiau yn cynnwys y canlynol:

² COSHH yw'r ddeddf sy'n mynnu bod cyflogwyr yn rheoli sylweddau peryglus i iechyd. Mae rhagor o wybodaeth ar wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch trwy ddilyn y ddolen ganlynol <http://www.hse.gov.uk/coshh/index.htm>

- Nid oedd y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli heintiau yn gyfredol ac nid oeddent yn gyson â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.³
- Nid oedd archwiliad ar reoli heintiau wedi cael ei gynnal.
- Nid oedd cynllun cynnal a chadw, i sicrhau bod y sterileiddiwr yn gweithio'n gywir, ar gael.
- Nid oedd profion dyddiol a gynhelir ar y sterileiddiwr yn gyson â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.
- Nid oedd system gadarn er mwyn cofnodi a gwirio'r data a gafwyd o'r peiriant sterileiddio er mwyn sicrhau bod yr offer deintyddol wedi cael eu sterileiddio'n briodol.
- Nid oedd gwiriadau rheolaidd ar berfformiad cyfarpar glanhau arall (peiriannau ultrasonig) yn cael eu cynnal.
- Nid oedd gan y practis sinciau ar wahân ar gyfer glanhau a rinsio offer deintyddol, neu system ar gyfer defnyddio dwy fowlen neilltuedig ar gyfer y diben hwn.
- Nid oedd tasgau cadw tŷ dyddiol yn cael eu gwneud yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.
- Nid oedd menig cryf ar gael ar gyfer glanhau gyda'r llaw.
- Canfuom fod nifer fawr o offer deintyddol endodontig⁴ wedi cael eu cadw er mwyn cael eu haildefnyddio ar yr un claf. Er i staff ddweud wrthym nad oedd yr offer hyn wedi cael eu haildefnyddio, nid oedd y practis wedi eu gwaredu.
- Roedd trafodaethau â staff yn datgelu bod diffyg ymwybyddiaeth ganddynt ynglŷn â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd 01-05. Felly, ni allem fod yn sicr bod yr hyfforddiant dadheintio a oedd wedi cael ei gwblhau gan y staff wedi bod yn ddigonol.

³ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444>

⁴ Defnyddir offer endodontig i gynnal amrywiaeth o driniaethau, gan gynnwys triniaeth sianel y gwreiddyn. Yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Cymru 01-05, dylai pob ffeil ac agorell endodontig gael ei defnyddio unwaith yn unig ym mhob achos.

Gweler Atodiad A ar gyfer manylion pellach am y camau gweithredu y mae angen eu cymryd ar unwaith o ran dadheintio offer deintyddol a rheoli heintiau.

Cyffuriau brys a chyfarpar dadebru

Gwnaethom ystyried y cyfarpar dadebru a chyffuriau brys oedd ar gael yn y practis. Canfuom fod yr holl gyffuriau'n gyfredol a bod dyddiadau dod i ben wedi'u nodi mewn dyddiadur. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis system gadarn ar gyfer sicrhau bod y cyfarpar yn ddiogel i'w ddefnyddio (argymhellir gwneud hyn yn wythnosol) yn unol â Chanllawiau Cyngor Dadebru y DU. Canfuom nad oedd un math o gyffur brys (midazolam) ar gael. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod hwn wedi cael ei archebu ond nid oedd wedi cyrraedd eto.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid cael systemau cadarn er mwyn sicrhau bod yr holl gyfarpar dadebru ar waith (gan gynnwys yr holl gyffuriau brys sydd eu hangen) ac yn ddiogel i'w ddefnyddio yn unol â Chanllawiau Cyngor Dadebru'r DU.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant i ymdrin ag argyfyngau meddygol, a sut i gyflawni adfywio cardio-pwlmonaidd. Fodd bynnag, ar gyfer rhai aelodau staff, nid oedd yr hyfforddiant hwn wedi cynnwys yr agweddau ymarferol ar gywasgu'r frest wrth gynnal adfywio cardio-pwlmonaidd. Dywedwyd wrthym y byddai'r holl staff yn mynychu hyfforddiant mewn adfywio cardio-pwlmonaidd ym mis Mawrth 2016, ond nid oedd unrhyw aelodau staff a oedd wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf.

Yr hyn sydd angen ei wella

O ystyried y sgiliau ymarferol sydd eu hangen ar gyfer cyflawni adfywio cardio-pwlmonaidd, dylai'r practis ystyried pa mor briodol yw'r hyfforddiant a dderbyniwyd gan y staff.

Dylai'r practis sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf.

Diogelu

Gwelsom fod angen gwneud gwelliannau i'r trefniadau ar gyfer diogelu cleifion. Gwelsom fod polisïau diogelu ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, nid oedd y polisi amddiffyn plant yn ddigon manwl ac nid oedd yn cynnwys y weithdrefn i'w dilyn gan staff pe bai pryder am ddiogelwch, na manylion cyswllt yr awdurdodau diogelwch lleol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid diweddarau'r polisi amddiffyn plant, gan gynnwys gweithdrefn glir er mwyn i staff ei dilyn pe bai pryder am ddiogelwch.

Gwnaethom edrych ar sampl o dystysgrifau hyfforddiant diogelwch ar gyfer staff. Canfuom nad oedd un aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn oedolion. Nid oedd tystysgrifau hyfforddi'r hylenydd ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad, felly nid oeddem yn gallu cadarnhau p'un a oedd yr hyfforddiant hwn wedi cael ei gynnal.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymgymryd â gwiriadau cyn-cyflogi gydag unrhyw aelod newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis, ond nid oedd hyn yn cynnwys tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis wneud hyn. Canfuom hefyd nad oedd gan y deintyddion a oedd wedi'u cofrestru gydag AGIC dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Cytunodd y deintydd wneud cais am hyn ar unwaith.

Offer radiograffig

Rhoddodd y practis dystiolaeth bod staff sy'n ymwneud â chymryd radiograffau wedi derbyn hyfforddiant diweddar i fodloni safonau ar gyfer gweithwyr sy'n cynnal y gweithdrefnau hyn, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁵ a Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Gwelsom ddogfennau oedd yn cadarnhau bod contract ar waith ar gyfer gwasanaethu a chynnal y peiriannau pelydr-X i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom dystysgrif i gadarnhau hyn ar gyfer un o'r peiriannau, ond nid oedd y dystysgrif archwiliad hanfodol ar gyfer y peiriant pelydr-X arall ar gael. Gofynnwyd i'r practis anfon hon at AGIC yn dilyn yr arolygiad.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis gynlluniau i gynnal archwiliad radiograffig ac roedd wedi dechrau casglu data, ond nid oedd hwn wedi cael ei wneud. Mae

⁵ Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

archwiliadau radiograffig rheolaidd yn ofynnol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol).

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid cynnal archwiliadau radiograffig (pelydrau-X) yn rheolaidd.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl bach o gofnodion cleifion yn y practis. Yn gyffredinol, canfuom fod y gwaith cadw cofnodion yn briodol, ond gwnaethom nodi'r meysydd canlynol i'w gwella:

- Nid oedd hanes cymdeithasol, gan gynnwys manylion am b'un a oedd claf yn ysmegu ac iechyd ei geg, bob amser wedi'i gofnodi.
- Nid oedd unrhyw gyngor i roi'r gorau i ysmegu wedi'i gofnodi yng nghofnodion y cleifion.
- Nid oedd hanesion meddygol yn cael eu llofnodi gan y claf na'u cydlofnodi gan y deintydd yn gyson. Nid yw cydlofnodi'n orfodol, ond rhaid bod gan y practis system gyson er mwyn sicrhau bod y deintydd yn gwirio pob hanes meddygol.
- Nid oedd sgrinio am ganser y geg yn cael ei gofnodi. Argymhellir y dylid cofnodi'r broses hon.
- Nid oedd delweddau pelydr-X wedi cael eu graddio o ran ansawdd. Mae angen graddio delweddau pelydr-X er mwyn cynnal archwiliadau radiograffig ar ansawdd delweddau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid gwneud y gwelliannau canlynol i'r broses o gadw cofnodion cleifion, gan gynnwys cadw cofnodion cywir a chyson ynglŷn â'r canlynol:

- Hanes cymdeithasol***
- Cyngor am roi'r gorau i ysmegu***
- Hanesion meddygol***
- Graddio delweddau pelydr-X.***

Ansawdd darpariaeth y gwasanaeth

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Rydym wedi gwneud argymhelliad ynglŷn â'r trefniadau er mwyn i'r practis fonitro cydymffurfiaeth â rheoliadau perthnasol a chanllawiau proffesiynol yn adran Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yr adroddiad hwn.

Canfuom nad oedd yr arferion gwaith yn Tenby Dental Haven yn rhoi digon o ystyriaeth i sicrwydd ansawdd, trefniadau gwella ansawdd a diogelwch cleifion, yn unol â gofynion y rheoliadau. Nid oeddem yn gallu dod o hyd i dystiolaeth bod y practis yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau archwilio neu adolygu ffurfiol gan gymheiriaid. Mae dysgu drwy adolygu gan gymheiriaid ac archwiliadau yn cynorthwyo wrth sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.

Gweler Atodiad A ar gyfer manylion pellach am y camau gweithredu ar unwaith sydd eu hangen ynglŷn â'r trefniadau gwella ansawdd a sicrwydd ansawdd.

O ystyried y gwelliannau o fewn yr adroddiad hwn, gwnaethom argymhell yn gryf y dylai'r practis gofrestru â dull rheoli a datblygu practisau, megis dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth,⁶ a weinyddir gan Adran Ôl-raddedigion Deintyddol Deoniaeth Cymru.

⁶ <http://www.walesdeanery.org/index.php/cy/practice-quality-improvement-programme/deintyddiaeth-matrics-aeddfedrwydd>.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

O ystyried nifer y gwelliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, canfuom fod angen trefniadau rheoli mwy effeithiol i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n effeithiol a bod arferion gweithio'n cydymffurfio â'r canllawiau proffesiynol a'r rheoliadau sy'n berthnasol.

Cyfrifoldeb rheolwr y practis yw rheoli'r practis o ddydd i ddydd. Roedd y tîm staff yn sefydledig iawn ac roeddent wedi gweithio gyda'i gilydd ers sawl blwyddyn.

Canfuom fod y trefniadau ar waith o ran polisïau, gweithdrefnau, a gwaith cynnal a chadw yn y practis yn ddryslud ac yn aneglur. Dywedwyd wrthym fod rhai polisïau a gweithdrefnau wedi'u darparu gan reolwr practis un o bractisau eraill sydd yn eiddo i Petra Dental Group, ond roedd rhai hefyd wedi'u diweddarau gan reolwr y practis yn Tenby Dental Haven. Nid oedd y mwyafrif o'r polisïau a welsom yn gyfredol, ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth wedi'i dyblygu neu a oedd yn anghyson neu yn amherthnasol. Roedd gan un polisi ddyddiad a oedd yn awgrymu ei fod wedi cael ei adolygu'n ddiweddar, ond roedd hyn yn cynnwys cyfeiriadau at reoliadau anghywir. Roedd hyn yn golygu nad oedd y broses ar gyfer adolygu polisïau yn effeithiol. Roedd y nifer o bolisïau wedi'u dyblygu yn golygu ei bod yn anodd i ni benderfynu pa bolisi oedd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. Yn gyffredinol, roedd angen trefniadau rheoli mwy effeithiol i sicrhau bod polisïau yn gyfredol, yn berthnasol, wedi'u hadolygu mewn modd trwyadl, ac yn gyson â'r canllawiau a'r rheoliadau proffesiynol diweddaraf. Oherwydd yr angen am ddiweddarau cynifer o bolisïau ymhlith y sampl o bolisïau gwnaethom edrych arnynt, mae angen adolygiad trylwyr o'r holl bolisïau. Gwnaeth y staff gadarnhau eu bod yn fodlon gwneud hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod trefniadau rheoli cadarn ar waith ar gyfer creu, adolygu a diweddarau'r holl bolisïau a'r gweithdrefnau yn unol â'r rheoliadau a'r canllawiau cyfredol.

Gwelsom rai cofnodion o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus er mwyn i rai aelodau staff ddangos bod ganddynt fynediad at hyfforddiant perthnasol. Gwnaethom drafod y trefniadau er mwyn i staff gael gwerthusiadau, ond darganfuom nad oedd gwerthusiadau wedi cael eu cynnal. Mae gwerthusiadau'n bwysig i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir ac i ganfod unrhyw anghenion hyfforddi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r holl staff gael gwerthusiadau yn rheolaidd.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd y deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd ei dystysgrif gofrestru wedi'i harddangos yn y practis.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd Hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis. Fodd bynnag, nid oedd dau o'r cofnodion yn nodi a oedd gan y staff imiwnedd digonol. Roedd hyn yn golygu nad oeddem yn gallu gwybod a oedd yr aelodau staff hyn wedi cael eu hamddiffyn yn ddigonol yn erbyn Hepatitis B.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff wedi cael eu hamddiffyn yn ddigonol yn erbyn Hepatitis B a bod cofnodion statws imiwnedd yn cael eu cynnal.

Dywedwyd wrthym nad oedd cyfarfodydd staff ffurfiol yn cael eu cynnal yn y practis, ond bod cyfarfodydd anffurfiol yn cael eu cynnal pan fo'n bosibl. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn bwysig i helpu i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu yn briodol gyda phob aelod o staff. O ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, mae cynnal cyfarfodydd staff yn rheolaidd yn bwysig hefyd er mwyn sicrhau bod y meysydd hyn yn cael y sylw priodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis gyfathrebu'n rheolaidd gyda phob aelod o'r tîm, yn benodol drwy gynnal cyfarfodydd staff yn rheolaidd.

Oherwydd natur a nifer y gwelliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, ni allem fod yn sicr bod y practis a'r gweithwyr deintyddol a oedd yn gweithio ynddo wedi bod yn ddigon rhagweithiol o ran asesu ac yn monitro'n rheolaidd ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn unol â gofynion y rheoliadau a'r canllawiau proffesiynol perthnasol.

Cyfrifoldeb perchnogion y practis a'r gweithwyr deintyddol sy'n gweithio yno yw sicrhau bod unrhyw risgiau sy'n ymwneud ag iechyd, lles a diogelwch cleifion ac eraill yn cael eu nodi, eu hasesu a'u rheoli'n effeithiol. Bellach, dylai trefniadau effeithiol fod ar waith fel bod modd i ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gael ei asesu a'i fonitro'n rheolaidd. Disgwylir i'r practis gymryd camau gweithredu ystyrlon er mwyn rhoi sylw i hyn ac y bydd tystiolaeth o welliant sylweddol yn hyn o beth ar adeg ein harolygiad nesaf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen datblygu a gweithredu trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol i fonitro cydymffurfiaeth â'r rheoliadau a'r canllawiau perthnasol.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Tenby Dental Haven yn derbyn sylw, gan gynnwys graddfeydd amser.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

6. Methodoleg

Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008⁷ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.⁸ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth oddi wrth nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

⁷ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

⁸ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd rheoliadau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>ar yr awtoclaf yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid oedd gan y practis system gadarn ar gyfer cofnodi'r data a gafwyd gan yr awtoclaf. Roedd cofnodwr data, ond nid oedd hwn yn cael ei wirio ac nid oedd copïau o'r data yn cael eu cadw wrth gefn yn ddigon rheolaidd. Nid oedd tasgau cadw tŷ dyddiol yn cael eu gwneud yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, gan gynnwys fflsio llinellau dŵr yr uned ddeintyddol. Roedd trafodaethau gyda staff yn datgelu bod diffyg ymwybyddiaeth ganddynt o ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ac nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod yr hyfforddiant dadheintio a gwblhawyd gan y staff yn ddigonol. 		<p>yn cael ei gadw am o leiaf tair blynedd.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae tystysgrifau perthnasol newydd wedi cael eu cyflwyno gan y DBG (Dental Buying Group) sy'n dilysu'r awtoclaf. Bellach rydym yn cynnal profion dyddiol ar yr awtoclaf sy'n unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Rydym wedi llunio taflenni profion at y diben hwnnw gan ddefnyddio adnoddau'r DBG. Bellach mae data a gafwyd gan yr awtoclaf yn cael eu cofnodi ar y taflenni profion a gafwyd gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, â llaw ac ar gyfer un cylch profi bob dydd. Mae gweddill y cylchoedd yn cael eu monitro â llaw yn achlysurol, gan ein bod yn hyderus o ran y profion dyddiol. Yn ogystal â 	<p>Tina Fecci</p> <p>Tina Fecci</p> <p>Tina Fecci</p> <p>Tina Fecci</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>hyn, rydym yn defnyddio cofnodwr data sy'n cael ei wirio bob wythnos a chedwir copiaau wrth gefn.</p> <ul style="list-style-type: none"> Bellach mae profion ar weithgaredd y bath wltrasonig yn cael eu cynnal a'u cofnodi ar daflenni cofnodi profion dyddiol a misol. Mae hyn yn cynnwys profion ffoil a phroffion gweddillion protein. Erbyn hyn, mae gennym system o ddwy fowlen neilltuedig (un ar gyfer glanhau ac un ar gyfer rinsio). Mae hyn wedi cael ei weithredu yn Ystafell Driniaeth 1 ac Ystafell Driniaeth 2 fel ei gilydd. Mae pob un o'n tasgau cadw tŷ dyddiol wedi cael eu hadolygu. Mae rhestr wirio ddiwedd y dydd wedi cael ei llunio yn unol â 	Kevin Lloyd	<p>Cwblhawyd</p> <p>2 wythnos</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Mae hyn yn cynnwys fflysio llinellau dŵr.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gwiriadau dyddiol ar offer erbyn hyn yn cael eu cynnal. • Mae gwiriadau dyddiol ar y cadeiriau deintyddol erbyn hyn yn cael eu cynnal ar gyfer ystafelloedd triniaeth 1 a 2. • Mae rhestr wirio ar gyfer glanhau'r amgylchedd wedi cael ei chyflwyno. • Mae profion dyddiol ar y cywasgydd wedi cael eu cyflwyno. • Mae profion wythnosol ar dymereddau dŵr wedi cal eu cyflwyno. • Mae pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant ar reoli heintiau am o leiaf un awr 		

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>Ilynedd. Mae hyfforddiant cyfredol ar reoli heintiau wedi cael ei drefnu. Y person a fynychodd yr hyfforddiant ar reoli heintiau a ddarparwyd gan Ddeoniaeth Cymru ar 7 Mawrth 2016 oedd Tina Fecci, ein nyrs ddeintyddol. Rydym wedi trefnu digwyddiad arall ar gyfer 5 Ebrill 2016, a Kevin Lloyd, Fawaz Abbas a Tina Fecci fydd yn ei fynychu.</p>		
	<p>Nid oedd yr arferion gweithio yn ystyried yn ddigonol sicrwydd ansawdd, trefniadau gwella ansawdd, a diogelwch cleifion. Y rheswm am hyn yw oherwydd i ni ganfod y meysydd canlynol i'w gwella:</p> <p>Yn ogystal â'r meysydd rheoli heintiau a dadheintio a grybwyllwyd uchod, nid oeddem yn gallu canfod tystiolaeth bod y practis yn arfer unrhyw weithgaredd ffurfiol o ran archwiliadau nag adolygu gan gymheiriaid. Dywedwyd wrthym fod gan y practis gynlluniau i gynnal archwiliad radiograffig, ond nid oedd hwn wedi</p>	Rheoliad 14 (2)	<p>Yn dilyn yr arolygiad, mae adolygiad o'n protocolau ac adnoddau llywodraethiant a sicrwydd ansawdd wedi'i gynnal. Rydym wedi ymgynghori â chynrychiolydd o Gymdeithas Ddeintyddol Prydain, a oedd yn darparu cyngor ac adnoddau. Rydym felly wedi gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Wedi cychwyn cylchoedd archwiliadau mewn: rheoli heintiau, ansawdd 	Fawaz Abbas a Kevin Lloyd	Parhaus

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>cael eu cymryd i sicrhau y bydd unrhyw argymhellion a chanllawiau ar gyfer arfer gorau yn cael eu gweithredu, gan gynnwys gosod system larwm tân.</p> <p>Mae ein hadroddiad ar Reoli Sylweddau Peryglus i lechyd wedi cael ei ddiweddarau i gynnwys pob deunydd a sylwedd a ddefnyddir yn ein safle. Bydd canllawiau Cymdeithas Ddeintyddol Prydain ar Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd ac asesiadau enghreifftiol yn cael eu hadolygu'n achlysurol er mwyn sicrhau bod asesiad addas a digonol o'r risgiau yn cael ei gynnal a bod mesurau rheoli yn cael eu nodi. Wrth reswm, tasg barhaus yw hon gan y bydd yr adroddiad yn cael ei newid yn unol â newidiadau o ran ein defnydd o ddeunyddiau a sylweddau.</p>		

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</p> <p>Nid yw'r person cofrestredig wedi bod yn ddigon rhagweithiol o ran asesu a monitro'n rheolaidd ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn unol â'r rheoliadau.</p> <p>O ystyried nifer y gwelliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, roedd yn amlwg nad oedd trefniadau sicrwydd ansawdd a llywodraethiant y gwasanaeth yn effeithiol.</p> <p>Ni allem fod yn sicr bod y person cofrestredig yn rhagweithiol o ran nodi a mynd i'r afael â'r pryderon a diffyg cydymffurfio o fewn eu gwasanaeth eu hunain, er mwyn sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu i gleifion.</p>	Rheoliad Diwygio 16 (a)	<p>Ers yr arolygiad, mae Dr Abbas wedi uwchraddio ei aelodaeth o Gymdeithas Ddeintyddol Prydain i fod yn arbenigydd Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, ac erbyn hyn mae'n derbyn cyngor un i un a mynediad at adnoddau a dogfennau sy'n cynnwys llywodraethiant clinigol, sicrwydd ansawdd ac adolygiadau gan gymheiriaid. Mae gwelliannau eisoes wedi cael eu gwneud i'r gwaith o gofnodi a monitro'r ansawdd gofal a ddarperir o fewn y practis, ac mae protocol sicrwydd ansawdd amlwg yn cael ei lunio er mwyn gwneud y canlynol:</p> <p>Cadw'n gyfredol o ran deddfwriaeth berthnasol. Mae aelodaeth arbenigydd Cymdeithas Ddeintyddol Prydain yn cynnwys gwasanaeth diweddarau lle mae unrhyw newidiadau i reoliadau, safonau a chanllawiau yn cael eu dwyn i sylw aelodau gan y gymdeithas. Bydd cyhoeddiadau, gan gynnwys BDJ, The Probe, cyhoeddiadau Denplan</p>	<p>Fawaz Abbas</p> <p>Kevin Lloyd</p> <p>Sharon Griffiths</p>	<p>Cynllun: Trimis</p> <p>Camau dilynol: Parhaus</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>ac adnoddau eraill, yn cael eu defnyddio i nodi newidiadau i'r ddeddfwriaeth. Bydd presenoldeb Dr Abbas yng nghyfarfod cangen ac adran Cymdeithas Ddeintyddol Prydain a chyfarfodydd datblygu proffesiynol parhaus hefyd yn sicrhau bod y practis yn cadw'n gyfredol. Bydd staff a fydd yn mynychu cyrsiau a digwyddiadau hyfforddi hefyd yn cael eu hannog i ddarparu mewnbwn er mwyn sicrhau bod cydymffurfiaeth yn cael ei monitro.</p> <p>Sicrwydd ansawdd effeithiol. Mae aelodaeth arbenigydd Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, drwy Expert Solutions, yn cynnwys ystod o offer archwilio, gan gynnwys y rhai y gellir eu cynnal. Yn ogystal â rheoli heintiau, mae hyn yn cynnwys iechyd a diogelwch, archwiliadau radiograffig, archwiliadau cadw cofnodion, archwiliadau canser y geg, ac archwiliadau ar amseroedd</p>		

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>aros i gleifion. Mae'r practis yn ymwybodol o'r Prosiectau Archwilio Cenedlaethol (gan gynnwys presgripsiynau gwrthficrobaidd ac integreiddio rhoi'r gorau i ysmegu) a bydd yn gofyn am ragor o wybodaeth am hyn gan Ddeoniaeth Cymru.</p> <p>Meysydd archwiliadau ac adolygu gan gymheiriaid, amllder, a phrosesu'r canlyniadau. Byddwn yn cynnal cyfarfodydd ar draws practisau yn rheolaidd (dwywaith y flwyddyn yn ddelfrydol). Un o'r agweddau ar y cyfarfodydd hynny fydd cynnal adolygiadau gan gymheiriaid ymhlith gweithwyr gofal deintyddol ym mhob tri o'r practisau. Byddwn yn ceisio cael cydweithwyr o bractisau cyfagos i gymryd rhan lle bo'n bosibl. Mae'r practis hefyd yn ystyried cymryd rhan yn y cynllun Archwiliad Clinigol ac Adolygiad gan Gymheiriaid (CAPRO) er mwyn cymharu gwahanol agweddau ar y</p>		

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>practis o ran arfer da sefydledig.</p> <p>Creu rhwydwaith rheolwyr a phersonél ar draws practisau i sicrhau bod cynnydd yn rhan o drefn ddwy ffordd rhwng pob un o'r tri phractis fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd Dr Abbas yn goruchwylio cydymffurfiaeth o fewn grŵp y practis, yn cysylltu â'r ddau reolwr practis, a sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau'n gyson ar gyfer pob un o'r tri phractis, yn trefnu cyfarfodydd practis a grŵp, ac yn sicrhau bod agweddau ar archwiliadau a llywodraethiant clinigol ar waith. • Bydd y rheolwyr practis Kevin Lloyd a Sharon Griffiths yn sicrhau cydymffurfiaeth ar lefel y practis, yn goruchwylio'r tasgau dyddiol 		

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>a'r taflenni cofnodi, ac yn sicrhau hyfforddiant cyfredol ar gyfer pob aelod o staff o dan eu rheolaeth. Maent eisoes yn cysylltu â'i gilydd ac yn cydweithredu drwy rannu adnoddau ac arbenigedd.</p> <p>Bydd y practis yn adolygu'r wybodaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael gan Denplan a Deoniaeth Cymru fel ei gilydd, gan ddefnyddio'r adnoddau hyn i sicrhau bod y practis yn cyflawni ei rymedigaethau cyfreithiol a chytundebol. Rydym wrthi'n ystyried cofrestru gyda'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth, ac rydym wedi adolygu Grid y Matrics Aeddfedrwydd.</p> <p>Byddwn yn rhannu'r adroddiad arolygu gyda Denplan ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.</p>		

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
5	Dylai rhagor o wybodaeth hyrwyddo iechyd berthnasol fod ar gael i gleifion.	Rheoliadau Deintyddiaet h Breifat 2011, Adran 14 (b)			
6	Dylai'r practis wella'r ffordd mae cleifion yn derbyn gwybodaeth am y practis a'r gwasanaethau sydd ar gael.	Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1.5			
6	Dylid diweddarau'r weithdrefn gwyno a dylid dileu'r cyfeiriadau at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, gan fod hyn yn berthnasol i gleifion y GIG ac nid cleifion preifat.	Rheoliadau Deintyddiaet h Breifat 15(4a); Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5			
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
8	Yn unol â'r anweithiau a nodir yn y canlyniadau uchod, mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod pob mesur a cham gweithredu priodol yn cael eu cymryd i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles cleifion a staff.	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat, 14(1)(d) a (2)</p> <p>Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002</p> <p>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.1</p>			
8	Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl eitemau gwastraff clinigol a'r rhai nad ydynt yn glinigol yn cael eu gwaredu yn briodol, gan gynnwys dannedd wedi'u tynnu, gypswm, a gwastraff hylendid benywaidd.	<p>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Adran 2.4 n;</p> <p>Memorandwm Technegol</p>			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Iechyd Cymru 01 - 07 – Rheoli gwastraff gofal iechyd yn ddiogel			
10	Mae'n rhaid cael systemau cadarn er mwyn gwirio bod yr holl gyfarpar dadebru ar waith (gan gynnwys yr holl gyffuriau sydd eu hangen mewn achos brys) a'i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio, yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru'r DU.	Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.3 Cyngor Dadebru'r DU – canllawiau ar gyfer gofal deintyddol sylfaenol			
10	O ystyried y sgiliau ymarferol sydd eu hangen ar gyfer cyflawni adfywio cardio-pwlmonaidd, dylai'r practis ystyried pa mor briodol yw'r hyfforddiant a gyflawnwyd gan staff. Dylai'r practis sicrhau bod staff sydd	Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.3 a 6.6.6 Cyngor			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf.	Dadebru'r DU – canllawiau ar gyfer gofal deintyddol sylfaenol			
11	Mae'n rhaid diweddarau'r polisi ar gyfer amddiffyn plant, gan gynnwys gweithdrefn eglur y dylai staff ei dilyn pe byddai pryder yn ymwneud â diogelu.	Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 8.5			
11	Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.	Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 8.5; Meysydd a argymhellir ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus			
12	Mae'n rhaid cynnal archwiliadau radiograffig (pelydr-X) yn rheolaidd.	Rheoliadau Deintyddiaet			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>h Breifat 14(1)(d), (2) a (3)</p> <p>Rheoliadau Ymbelydred d Ïoneiddio 1999 (IRR99)</p> <p>Rheoliadau Ymbelydred d Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 (IR(ME)R 2000)</p>			
12	<p>Dylid gwneud y gwelliannau canlynol i'r broses o gadw nodiadau cleifion, gan gynnwys cadw cofnodion cywir a chyson ynglŷn â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> Hanes cymdeithasol <input type="checkbox"/> Cyngor am roi'r gorau i ysmegu 	<p>Rheoliadau Deintyddiaet h Breifat 14 (1)</p> <p>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4</p>			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<input type="checkbox"/> Hanesion meddygol <input type="checkbox"/> Graddio delweddau pelydr-X.				
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
14	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod trefniadau rheoli cadarn ar waith ar gyfer creu, adolygu a diweddarau'r holl bolisiau a'r gweithdrefnau yn unol â'r rheoliadau a'r canllawiau presennol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 14(1) a (2) Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6			
14	Dylai'r holl staff gael gwerthusiadau yn rheolaidd.	Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.1.6			
15	Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff wedi cael eu hamddiffyn yn ddigonol yn erbyn Hepatitis B a bod cofnodion statws imiwneidd yn cael eu cynnal.	Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.2			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
15	Dylai'r practis gyfathrebu'n rheolaidd â phob aelod o'r tîm, yn benodol drwy gynnal cyfarodydd staff yn rheolaidd.	Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6			
16	Mae angen datblygu a gweithredu trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol i fonitro cydymffurfiaeth â rheoliadau a chanllawiau perthnasol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 14 (2); Rheoliadau Diwygio 16 (a)			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras):

Teitl:

Dyddiad: